



DARLENWCH
Marc 7: 1-23



ADNOD
ALLWEDDOL
I Timotheus 1:15
Rhufeiniaid 5:8

Astudiaeth 4 Y Gyfraith – “Gair Duw”



Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Deuteronomium 6: 4-9 Eseia 29: 13 Rhufeiniaid 3: 21-26 Galatiaid 3: 1-14

Pan fydd lleidr yn cael ei ymlid gan yr heddlu, gallai ddweud, “Mae'r Gyfraith ar fy ôl!”. Mae e'n golygu'r heddlu a chyfraith y wlad hefyd, wrth gwrs. Yn amser yr Arglwydd Iesu, roedd yr Iddewon wedi casglu ynghyd y gorchmynion a'r holl gyfarwyddiadau eraill roedd Duw wedi eu rhoi i Moses, a'u galw wrth yr enw ‘Y Gyfraith’. Heddiw, mae rhai Iddewon yn dal i ystyried mai'r Gyfraith yw eu hysgrifeniadau mwyaf sanctaidd a byddant yn darllen hon, yn ei dysgu, ei hymarfer ac yn ei pharchu fel Cyfraith Dduw. Gwelir ‘meswsa’ ar bostyn drws nifer o gartrefi Iddewig. Mae hwn yn cynnwys rhan o'r Gyfraith a bob tro y bydd aelodau'r teulu yn mynd allan bydd yn eu hatgoffa bod rhaid iddynt gadw'r Gyfraith.




Y Meswsa

C Edrychwch ar Deuteronomium 6: 6 a 9 ac ysgrifennwch y gorchymyn arbennig hwn a roddodd Moses.

2

Gwaetha'r modd, erbyn cyfnod yr Arglwydd Iesu, roedd yr athrawon Iddewig wedi llunio llawer o fân gyfreithiau eraill hefyd. Pe bai pobl yn gallu cadw pob un o'r cyfreithiau bach hyn, meddent, yna byddai hynny'n eu harbed rhag torri Cyfraith Dduw!



C Edrychwch ar y Darlleniad o'r Beibl ac atebwch y cwestiynau hyn mewn un gair neu frawddeg.

1) Beth oedd y disgyblion yn ei wneud oedd yn ddrwg yng ngolwg rhai?

--

2) Beth ddylen nhw fod wedi ei wneud?

--

3) Roedd y Phariseaid yn meddwl y dylai'r disgyblion fod wedi ufuddhau i beth?

--

4) Galwodd Iesu'r Phariseaid yn?

--

5) O ba lyfr yn yr Hen Destament y dyfynnodd yr Arglwydd Iesu wrth siarad â'r Phariseaid?

--

5

C Tanlinellwch y geiriau cywir yn y paragraff sy'n dilyn.

Dywedodd yr Arglwydd Iesu, "Y mae'r bobl hyn yn fy anrhydeddu â'u **meddyliau / traed / gwefusau** ond y mae eu **dwyllo / llygaid / calonnau** ymhell oddi wrthyf; yn ofer y maent yn fy **moli / nilyn / addoli**; gan ddysgu **syniadau / awgrymiadau / gorchmynion** a rheolau dynol fel athrawiaethau."

4

Roedden nhw mor brysur yn ceisio cadw'r holl bethau ychwanegol roeddent wedi eu hychwanegu at eiriau Duw, fel eu bod wedi colli golwg ar yr hyn oedd gwir ewyllys Duw ar gyfer eu bywydau. Roedd syniadau dynion wedi cuddio ewyllys Duw!
Dyma dri gair o'r Beibl a thri Chyfeiriad Beiblaidd sy'n disgrifio sut brofiad gawn ni pan fyddwn yn methu cadw Gorchmynion Duw.

C Yn y blwch uwchben bob llun, ysgrifennwch y gair sy'n ei ddisgrifio orau ac yn y blwch o dan bob llun, ysgrifennwch y cyfeirnod Beiblaidd mwyaf priodol.

Dyled

Golyga hyn ein bod fel person sy'n Fethdalwr; rydym wedi 'mynd i ddyled' gyda Duw ac yn methu talu nô!

Rhufeiniaid 3: 23

Pechod




Daw hyn o'r syniad o fethu'r targed. Rydym wedi syrthio'n fyr o'r hyn y dylem fod, a'r hyn y dylem ei wneud hefyd!

Mathew 6: 12

Camwedd

Ystyr hyn yw torri gorchmynion Duw neu anwybyddu'r rheolau mae Ef wedi eu gosod fel canllawiau i'n bywydau.

I Ioan 3: 4



6

Os yw pob un ohonom wedi methu cadw Gorchmynion Duw, ac felly yn bechadur, yn droseddwr ac yn ddyledwr, oes unrhyw obaith i ni?

C Ysgrifennwch y ddwy Adnod Allweddol a THANLINELLWCH y geiriau sy'n dangos i ni nad oes unrhyw obaith!

3

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD. Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru. Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts. Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag: Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwillog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120